FREEPOST National Grid NW Connection

Rhadffôn: 0800 990 3567

nationalgrid@cysylltiadgogleddcymru.com

www.nationalgrid.com/cysylltiadgogleddcymru

17 Tachwedd 2015

Annwyl Gynghorydd,

Prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru – mis i fynd

Rydym ym mis olaf yr ymgynghoriad erbyn hyn ac felly, os nad ydych eisoes wedi cynnig sylwadau am ein cynlluniau i gysylltu atomfa Wylfa Newydd â'r rhwydwaith trydan cenedlaethol, manteisiwch ar y cyfle i wneud hynny.

Dyma gyfle i chi ddylanwadu ar ein gwaith. Fe hoffem ni gael eich sylwadau ar yr opsiynau a gynigir gennym ar gyfer llwybr y cysylltiad ac ardaloedd chwilio'r compowndiau pennau selio. Mae'ch sylwadau chi yn bwysig a byddant yn helpu i ddylanwadu ar ein cynlluniau. Felly rydym yn gobeithio'n fawr y byddwch yn cymryd rhan.

Os oes gennych ryw gwestiwn neu os hoffech ragor o wybodaeth, dewch draw i un o'r digwyddiadau sydd ar ôl i gael cyfarfod â'r tîm – mae'r dyddiadau isod:

- Dydd Mawrth 17 Tachwedd, 1.30pm – 7.30pm, **Neuadd y Dref Caergybi,** LL65 1HN
- Dydd Mercher 18 Tachwedd, 1.30pm – 7.30pm, **Neuadd Goffa Porthaethwy**, Stryd y Paced, LL59 5DD
- Dydd Gwener 20 Tachwedd, 1.30pm – 7.30pm, **Neuadd Goffa Amlwch**, LL68 9ET
- Dydd Sadwrn 21 Tachwedd, 10am – 4pm, **Neuadd Goffa y Felinheli**, LL56 4XD
- Dydd Llun 23 Tachwedd, 1.30pm – 7.30pm, **Canolfan Esceifiog**, Gaerwen, LL60 6DD
- Dydd Mawrth 24 Tachwedd, 1.30pm – 7.30pm, **Capel Berea Newydd**, Bangor, LL57 2AJ
- Dydd Mercher 25 Tachwedd, 2.30pm – 7.30pm, **Ysgol Gymuned Llanfechell**, Llanfechell, LL68 0SA
- Dydd Sadwrn 28 Tachwedd, 10am – 4pm, **Ysgol Gymuned, Llannerch-y-medd**, LL71 8DP

Mae'r ymgynghoriad yn cau ar **ddydd Mercher 16 Rhagfyr 2015** ac mae angen cyflwyno'r holl ymateb erbyn y dyddiad hwnnw.

Cewch ragor o wybodaeth am ein cynlluniau diweddaraf a sut i ddweud eich dweud ar ein gwefan www.nationalgrid.com/cysylltiadgogleddcymru**.** Os oes gennych ryw gwestiwn neu os hoffech wybod rhagor, mae croeso i chi gysylltu â ni.

Yn gywir,
Cysylltiad Gogledd Cymru
Tîm Cysylltiadau Cymunedol

Sicrhau ein cyflenwad ynni ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.